

# **Polisi Cymwysterau Cyfrwng Cymraeg**

## Cynnwys

|                              |   |
|------------------------------|---|
| Hanes Fersiynau.....         | 2 |
| Pwrrpas .....                | 3 |
| Cwmpas .....                 | 3 |
| Awdurdodau Rheoleiddio ..... | 3 |
| Cynulleidfa.....             | 3 |
| Diffiniadau.....             | 4 |
| Polisi.....                  | 4 |
| Cyfrifoldebau .....          | 5 |
| Monitro ac Adolygu .....     | 5 |
| Dogfennau cysylltiedig ..... | 5 |
| Gofynion Rheoleiddio .....   | 5 |

## Hanes Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Adran(nau) | Newid(iadau) a wnaed       |
|---------|---------|------------|----------------------------|
| 1.0     | 09/24   | Popeth     | Polisi Newydd              |
| 1.1     | 06/26   | Popeth     | Adolygiad o'r polisi cyfan |

## Pwrrpas

Nod y polisi canlynol yw sicrhau bod Open Awards yn cyflawni'r disgwyliad o ddarparu asesiadau a deunyddiau asesu yn y Gymraeg ac yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru.

## Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'r cynhyrchion Open Awards a'r gwasanaethau cysylltiedig canlynol:

Cymhwysterau Cymru



## Awdurdodau Rheoleiddio

Cymwysterau Cymru yw'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod darpariaethau'r ddogfen hon yn gyson â gofynion yr awdurdodau rheoleiddio. Pan fydd gofynion awdurdod rheoleiddio yn newid, neu lle mae'r gweithdrefnau hyn yn gwrthdaro'n anfwriadol â rhai'r awdurdod rheoleiddio, gweithdrefnau'r awdurdod rheoleiddio fydd yn berthnasol. Pan fydd gofynion yr awdurdod rheoleiddio yn cael eu diwygio ac yn gofyn am newidiadau i'r ddogfen hon, gwneir y newidiadau hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, a bydd Open Awards yn hysbysu darparwyr yn unol â hynny.

## Cynulleidfa

Mae'r ddogfen hon i'w defnyddio gan y canlynol:

- Holl staff darparwyr cymeradwy Open Awards.
- Dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gymwysterau ac unedau Open Awards gyda darparwr cymeradwy.
- Dysgwyr preifat wedi'u cofrestru ar gymwysterau ac unedau Open Awards.
- Staff a Ymddiriedolwyr Open Awards.

## Diffiniadau

### Cyfrwng Cymraeg

Caiff y rhan fwyaf o'r dysgu ei wneud drwy gyfrwng darparwyr cymeradwy Cymraeg.

## Polisi

1. Mae Open Awards yn darparu cymwysterau i ddysgwyr ar draws Cymru a Lloegr ac, ar gyfer rhai cymwysterau a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru, gall ddarparu'r dewis o asesiad yn Gymraeg. Wrth adolygu a allwn ddarparu cymwysterau ac asesiadau penodol yn y Gymraeg, byddwn yn ystyried (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, gan y gall fod ystyriaethau eraill): (ii) i ba raddau y mae cymwysterau tebyg gan gyrff dyfarnu eraill eisoes ar gael yn y Gymraeg; (ii) maint y galw am asesu yn y Gymraeg
2. Lle bo'n briodol, bydd Open Awards yn datblygu deunydd Cymraeg i gefnogi darpariaeth Open Awards Cymraeg. Lle mae Open Awards yn penderfynu y bydd cymwysterau'n cael eu cynnig drwy'r Gymraeg, byddwn ni'n
  - Darparu dogfennau dwyieithog megis canllawiau cymwysterau, manylebau unedau a pholisïau drwy ein gwefan a'n Porth Diogel.
  - Galluogi darparwyr i ddewis iaith yr asesiad wrth gofrestru.
  - Creu prosesau a systemau i alluogi cynnal asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg lle bo angen ar gyfer yr asesiadau sydd wedi'u cynhyrchu yn y Gymraeg.
  - Cynhyrchu tystysgrifau dwyieithog i bob dysgwr sydd wedi'i gofrestru ar gymwysterau cyfrwng Cymraeg Open Awards.
4. Bydd yr holl ddeunydd cymorth hanfodol i ddysgwyr hefyd ar gael yn Gymraeg, lle bo'n briodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys deunyddiau asesu sampl ac unrhyw rannau o'r fanyleb neu ddogfennau eraill y disgwylir i ddysgwyr eu darllen cyn ceisio asesu. Manylebau a chymwysterau academaidd arholiadau Cymraeg.
5. Gall fod achlysuron lle mae Open Awards yn penderfynu peidio â darparu deunyddiau yn y Gymraeg, lle mae'r cymhwyster yn cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru, pan nad oes y galw yn y farchnad i gynhyrchu dogfennau y cymhwyster perthnasol; a dogfennau cysylltiedig eraill yn y Gymraeg. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn cydnabod y gall y galw am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg amrywio ar draws gwahanol ranbarthau a sectorau. Mae ein penderfyniad hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y galw gan gyflogwyr, colegau, darparwyr hyfforddiant, a rhanddeiliaid eraill, sy'n helpu i arwain ein cynnig o gymwysterau.6
6. Mae rhestr o gymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn adran Dogfennau a Ffurflenni Porth Diogel Open Awards.

## Cyfrifoldebau

- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r polisi hwn.
- 7. Darparu asesiad a deunyddiau asesu yn y Gymraeg, lle bo digon o alw.
- 8. Hyrwyddo cymwysterau cyfrwng Cymraeg
  - Sicrhau bod safoni a bod gan asesiadau'r un lefel o her a galw, heb ots am iaith yr asesiad.
  - Darparu tystysgrifau dwyieithog i ddysgwyr
  - Monitro'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol am asesu ein cymwysterau yng Nghymraeg;
- 9. Adnabod unrhyw gyfleoedd i wella mynediad at ein hasesiadau Cymraeg, lle bo angen.

## Monitro ac Adolygu

Bydd Open Awards yn adolygu'r polisi hwn bob dwy flynedd fel rhan o'i drefniadau adolygu, ac yn ei ddiwygio pan fo angen. Gallai hyn fod yn ymateb i adborth gan gwsmeriaid a dysgwyr/prentisiaid, newidiadau mewn arferion, cyngor gan awdurdodau rheoleiddio neu asiantaethau allanol, neu newidiadau mewn deddfwriaeth.

## Dogfennau cysylltiedig

- Cytundeb Cydnabod Darparwyr
- Llawlyfr i Ddarparwyr
- Polisi a Gweithdrefnau Ymholiadau ac Apeliadau
- Polisi Cwynion
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Polisi Camymarfer a Chamweinyddu
- Polisi Diogelu
- Polisi Cosbau

## Gofynion Rheoleiddio

Mae'r Polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio i fodloni gofynion ein Rheoleiddwyr, yn benodol:

Amodau Cyffredinol Cydnabod Cymwysterau Cymru D9,

D9.1, D9.2, D9.3, D9.4, D9.5, D9.6, D9.7, G2, G3, E6

|                                            |                                         |
|--------------------------------------------|-----------------------------------------|
| <i>Tarddiad:</i>                           | <i>Cyfarwyddwr Darparu Gwasanaethau</i> |
| <i>Dyddiad yr adolygiad diwethaf:</i>      | <i>Mehefin 2026</i>                     |
| <i>Dyddiad y cymeradwy aeth ddiwethaf:</i> | <i>Mehefin 2026</i>                     |
| <i>Cymeradwywyd gan:</i>                   | <i>Tîm Rheoli Open Awards</i>           |
| <i>Cyfnod adolygu:</i>                     | <i>Bob dwy flynedd</i>                  |
| <i>Adolygiad nesaf erbyn:</i>              | <i>Mehefin 2028</i>                     |